# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae Adroddiad Blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei gweithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe

| **Cynghorydd:** | Mandy Evans | Adran Etholiadol: | Bonymaen |
|---|---|---|---|

| **Swydd Cyflog Uwch:** | Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Wasanaethau (o 1 Hydref 2014) |
|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Cynhaliwyd cymorthfeydd dair gwaith y mis. Cynhaliais hefyd deithiau cerdded rheolaidd yn y ward i gwrdd ag etholwyr.

Gweithiais gyda'r holl sefydliadau yn fy ward ac yn Abertawe i ddatblygu perthnasoedd gweithio i fagu hyder a gwella cyfleoedd ar gyfer fy etholwyr.

Gweithiais gyda'r Heddlu, Cymunedau'n Gyntaf a Banc Bwyd Dwyrain Abertawe. Ymwelais ag ysgolion yn fy ward i gefnogi disgyblion a'r staff.

Ar hyn o bryd, rwy'n gweithio ar faterion parcio ger ysgolion a mannau problematig eraill yn y ward. Rwyf wedi bod yn gweithio ar faterion yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), a hefyd waredu tir y cyngor yn y ward.

**Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir y % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 4 | / | 7 | 57 | % |
| Fforwm Magu Plant Corfforaethol | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Y Cyngor | 16 | / | 17 | 94 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 6 | / | 7 | 86 | % |
| Pwyllgor Cydraddoldeb | 2 | / | 5 | 40 | % |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | 2 | / | 2 | 100 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Lleoedd | 3 | / | 4 | 75 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Chraffu | 3 | / | 9 | 33 | % |
| Pwyllgor Cynghori’r Cabinet – Gwasanaethau | 3 | / | 3 | 100 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu Statudol | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Panel Ymddiriedolwyr | 2 | / | 2 | 100 | % |
| **CYFFREDINOL** | **43** | **/** | **59** | **73** | **%** |

Cyfarfodydd Craffu:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithgor Craffu ar Feysydd Parcio | 2 | / | 2 | 100 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Anweithgarwch Economaidd | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Panel Craffu Perfformiad Ysgolion | 0 | / | 12 | 0 | % |
| Panel Perfformiad Craffu Lles | 0 | / | 6 | 0 | % |
| **CYFFREDINOL** | **2** | **/** | **21** | **10** | **%** |

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd**

Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Wasanaethau
Fel cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Wasanaethau, roedd eitemau'r agendâu'n cynnwys:
Partneriaethau o safon, partneriaeth o safon statudol a chontractau bws o safon
Cynllun Trafnidiaeth Integredig
Cyfleusterau Parcio a Theithio
Polisi Parcio Preswylwyr
Llwybrau Beicio/Cynllluniau Gweithredu
Gorfodi Parcio Ceir
Meithrin perthnasoedd gyda grwpiau i gynyddu ymwybyddiaeth o fynediad i gludiant cyhoeddus.

Cyfarwyddwr – Bay Leisure
Ymddiriedolwr-gyfarwyddwr - Cymdeithas Pobl Fyddar Cymru
Panel Maethu

Yn cynorthwyo i adolygu'r Gwasanaethau i Oedolion ar hyn o bryd.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwy'n ymddiriedolwr Banc Bwyd Dwyrain Abertawe, lle rwy'n cynorthwyo, fel gwirfoddolwr, i gefnogi'r banc bwyd drwy chwilio am roddion a gweithio gyda sefydliadau i sicrhau partneriaethau i feithrin a gwella'r gwasanaeth mawr ei angen i gefnogi preswylwyr yn Abertawe sy'n wynebu anhawster yn yr economi bresennol.

Rwyf wedi gweithio gyda 'Menywod Yn Gwneud Gwahaniaeth' lle rwyf wedi cefnogi menywod yn y gymuned i fagu hyder i greu prosiectau cymunedol.

Mae WMAD yn rhaglen adeiladu gallu sy'n addysgu ac yn annog menywod yng Nghymru i gael y sgiliau, yr hyder a'r meddylfryd i fod yn arweinwyr yn eu cymunedau ac yn bobl gwneud penderfyniadau ar bobl lefel ym mywyd cyhoeddus a gwleidyddol.

Mae'r cyrsiau hyfforddiant am ddim ac yn agored i bob menyw yng Nghymru. Does dim rhagofynion i ymuno ac rydym yn cefnogi menywod gyda chostau teithio a gofal plant pan fo angen.

Mae WMAD wedi rhoi'r cyfle i mi annog menywod yn y ward i fagu hyder er mwyn gwneud gwahaniaeth yn fy nghymuned.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Es i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

15/10/2014 - Rheoli'r Drysorfa mewn llywodraeth leol
13/10/2014 - Diogelu
08/10/2014 - Sut i fanteisio i'r eithaf ar eich tabled/ffôn clyfar
03/07/2014 - Hyfforddiant Rhyddid Gwybodaeth
03/07/2014 - Hyfforddiant Diogelu Data (gan gynnwys rôl fel rheolwr data)

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Llywodraethwr ysgol yng Nghefn Hengoed a Phentrechwyth.

Mynychais gyfarfodydd PACT a gynhaliwyd yn Ysgol Gynradd Illtyd Sant.

Aelod o Fanc Bwyd Dwyrain Abertawe lle gweithiais gyda First Great Western (FGW) i dderbyn rhoddion i gefnogi ein banc bwyd.

Mynychais gyfarfodydd Cymunedau'n Gyntaf.

Rwyf wedi gweithio gyda phreswylwyr i frwydro yn erbyn materion ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y ward.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300 (hyd at ddiwedd mis Medi 2014)
Cyflog Uwch: £22,000 Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Wasanaethau (o 1 Hydref 2014)

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 08.07.15 |